MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

# Archwiliad o effeithiolrwydd ymateb yr heddlu a chyrff gorfodi'r gyfraith i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan grwpiau yng Nghymru a Lloegr

Rwyf yn croesawu adroddiad a chanfyddiadau'r archwiliad thematig cenedlaethol hwn ar faes plismona eithriadol o bwysig. Codwyd adroddiad yr archwiliad fel pwnc trafod mewn cyfarfod y Bwrdd Plismona ar 12fed Ionawr 2024. Dyma'r fforwm lle rwyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Rwyf yn cydnabod yr argymhellion a amlinellir o fewn yr adroddiad a byddaf yn parhau i fonitro hyn drwy fy Mwrdd Plismona a gweithgarwch craffu.

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, rwyf yn rhannu bod Heddlu Dyfed-Powys wedi rhagweld cynnydd mewn camfanteisio ar blant, materion diogelu ar-lein a thrais yn erbyn plant (mewn perthynas â Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol). Gosodais yn flaenoriaeth i mi fod breguster plant a phobl ifanc, fel dioddefwyr neu gyflawnwyr trosedd, yn cael ei gydnabod ac yn derbyn ymateb mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma.

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei enwi yn yr adroddiad fel un o'r Heddluoedd a archwiliwyd fel rhan o archwiliad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, fodd bynnag cafodd yr Heddlu ei archwilio'n gynharach y flwyddyn hon fel rhan o "Archwiliad o ba mor dda y mae'r Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) yn ymdrin â chamdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol ar blant ar-lein" yr AHGTAEF.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd ymagwedd ataliol tuag at gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac amlygwyd hyn yn ddiweddar yn yr Asesiad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PEEL) diweddaraf (2023-25). Mae'r Heddlu eisoes wedi rhoi gwybod i fy swyddfa am waith sy'n cael ei gyflawni mewn perthynas â meysydd Asesiad PEEL lle mae angen gwella yn y maes hwn. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr Asesiad PEEL a fy ymateb ar fy ngwefan.